

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Adroddiad Blynyddol 2014-15

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Adroddiad Blynyddol 2014-15

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Darren Millar (Cadeirydd)

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Mohammad Asghar

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Jocelyn Davies

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Sandy Mewies

Llafur Cymru
Delyn



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Jenny Rathbone

Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Aled Roberts

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn:



William Graham

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Alun Ffred Jones

Plaid Cymru
Arfon

Cynnwys

Rhgair y Cadeirydd	5
1. Cyflwyniad	6
Cefndir: Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus	6
2. Gwaith y Pwyllgor 2014–15	8
Gofal heb ei drefnu	8
Cefndir	8
Canfyddiadau Allweddol.....	9
Prif Ganlyniadau.....	10
Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon	10
Cefndir	10
Canfyddiadau Allweddol.....	11
Prif Ganlyniadau.....	12
Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn.....	12
Cefndir	12
Canfyddiadau Allweddol.....	13
Prif Ganlyniadau.....	14
Cyflogau Uwch Reolwyr	15
Cefndir	15
Canfyddiadau Allweddol.....	15
Prif Ganlyniadau.....	16
Craffu ar Gyfrifon 2013–14	17
Cefndir	17
Canfyddiadau Allweddol.....	17

Prif Ganlyniadau.....	18
Glastir.....	19
Cefndir	19
Canfyddiadau Allweddol.....	20
Prif Ganlyniadau.....	21
Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Adroddiad dilynol.....	21
Cefndir	21
Canfyddiadau Allweddol.....	22
Prif Ganlyniadau.....	23
Edrych i'r dyfodol	23

Rhagair y Cadeirydd

Rwy'n falch o gyflwyno ail Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a'r un olaf yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag adroddiadau'r Pwyllgor ar gyfer 2014-15, ac mae'n dangos unwaith eto'r amrywiaeth yng ngwaith y Pwyllgor. Roedd ein hadroddiadau eleni yn ymwneud ag iechyd, addysg, trafndiaeth, amaethyddiaeth a thâl yn y sector cyhoeddus. Roedd ein gwaith yn ymwneud â themâu trawsbynciol o ran monitro'r defnydd o arian cyhoeddus - fel ansawdd llywodraethu, y defnydd o ddata a rheoli perfformiad.

Er bod y rhan fwyaf o waith y Pwyllgor yn deillio o'r astudiaethau gwerth am arian a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys tri adroddiad ar waith a gychwynnodd y Pwyllgor ar ei liwt ei hun - gan adlewyrchu diddordebau Aelodau ac ymrwymiad i barhau â'n ffyrdd diwygiedig o weithio. Mae'n amlwg o'r trafodaethau gyda phwyllgorau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill bod llawer iawn o ddiddordeb yn yr agwedd hon ar ein gwaith a'i fod yn ddull arloesol newydd o wneud gwaith archwilio cyhoeddus.

Mae'r trafodaethau hyn wedi caniatáu i'r Pwyllgor gyfnewid syniadau ac arferion da, sydd wedi cynorthwyo'r Pwyllgor i fireinio ymhellach y ffordd y mae'n gweithredu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodaethau eraill i'n galluogi i ddatblygu cysylltiadau parhaus sydd o fudd i'r rhai yr ydym yn eu cynrychioli.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ei berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol, ac yn ddiolchgar iddo ef a staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu cyfraniad at waith y Pwyllgor.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r ymgysylltiad rhwng y Pwyllgor â Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar barch ac awydd i weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r gwerth gorau am arian i drethdalwyr Cymru. Er nad yw'r berthynas yn un gysurus, ac ni ddylai fod, mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb yn adeiladol i'n hadroddiadau a'n hargymhellion.

Y flwyddyn nesaf, bydd y Pwyllgor yn llunio adroddiad etifeddiaeth a fydd yn edrych yn ôl ar ein gwaith ers 2011, yn myfyrto ar sut yr ydym wedi gweithredu ac yn nodi'r hyn y credwn fydd y materion allweddol ar gyfer olynnydd y Pwyllgor yn y Pumed Cynulliad.

Darren Millar AC

1. Cyflwyniad

Cefndir: Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

1. Mae'r Pwyllgor yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys wyth Aelod o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru.
2. Rôl y Pwyllgor yw sicrhau y creffir ar wariant datganoledig mewn modd priodol a thrylwyr. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn bennaf, mae'r Pwyllgor yn trafod astudiaethau a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae wedi'i wahardd, o dan y Rheolau Sefydlog, rhag ystyried rhinweddau amcanion polisi Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff cyhoeddus y mae'n craffu arno.
3. Rydym yn cael cyngor a briffiau gan yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn annibynnol ar y swyddfa honno, ac mae gennym ein tîm ein hunain o swyddogion i'n cynorthwyo yn ein gwaith.
4. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, lle'r oedd o'r farn y byddai budd a diddordeb cyhoeddus mewn gwneud hynny. Cafodd yr ymchwiliadau hyn a gychwynwyd gan y Pwyllgor gefnogaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru a staff Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.
5. Wrth gynnal ymchwiliadau mae'r Pwyllgor yn ystyried gwerth am arian, gonestrwydd a threfniadau llywodraethu. Nod y Pwyllgor yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol ac yn effeithlon. Rydym hefyd yn anelu at dynnu sylw at faterion perthnasol, ysgogi newid a hyrwyddo gwelliant yn y ffordd y darperir gwasanaethau ac y defnyddir arian cyhoeddus.
6. Unwaith eto, mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn adlewyrchu amrywiaeth y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae'n adlewyrchu ymdrechion y Pwyllgor i wella ei ffyrdd o weithio yn barhaus, gan gynnwys cynyddu nifer yr adroddiadau y mae'n gwneud ar ei liwt ei hun a gwneud cysylltiadau gydag awdurdodaethau eraill i archwilio sut y mae Pwyllgorau cyfatebol yn cyflawni eu rôl.

7. Dyma ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus presennol, a'r olaf i gael ei gynhyrchu yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Flwyddyn nesaf, byddwn yn llunio adroddiad etifeddiaeth yn nodi gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y Cynulliad hwn ac effaith ein gwaith.

2. Gwaith y Pwyllgor 2014-15

Gofal heb ei drefnu

Cefndir

8. Mae gofal heb ei drefnu yn ymwneud â sylw meddygol sy'n annisgwyl, ac felly'n cyflwyno heriau penodol i'r gwasanaeth iechyd. Ym mis Medi 2013, cyhoeddwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, "Gofal Heb ei Drefnu - Diweddariad ar Gynnydd". Nod yr adroddiad oedd olrhain sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol ar y pwnc, yn enwedig adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2009, a'r heriau a'r cyfleoedd allweddol i wella sydd ar ôl.

9. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y dirywiad o ran perfformiad ers 2009 wedi rhoi ffocws sylweddol ar ofal heb ei drefnu, sydd bellach yn dangos arwyddion cynnar o welliant o ran perfformiad, sydd angen eu diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau trawsffurfiol sydd eu hangen ar gyfer gwelliant parhaus wedi cael eu gweithredu'n llawn.

10. Cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2013, i gynnal ymchwiliad i'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar ofal sylfaenol.

11. Canolbwyntiodd ymchwiliad y Pwyllgor ar y canlynol:

- y perfformiad o ran gofal heb ei drefnu a'r pwysau ar wasanaethau;
- gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, pwysau oherwydd diffyg presenoldeb a materion yn ymwneud â recriwtio meddygon teulu a'u cadw;
- rheoli galw er mwyn sicrhau cydbwysedd da rhwng gofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu, a bod cleifion yn deall ac yn defnyddio eu hopsiynau'n well;
- anawsterau arbennig pobl hŷn fregus; a
- sicrhau model sefydlog o ddarpariaeth gofal ar gyfer y dyfodol.

12. Yn ogystal â'r nifer o gyflwyniadau ysgrifenedig a ddaeth i law, cynhaliodd y Pwyllgor bump o sesiynau tystiolaeth, gan graffu ar Gymdeithas Feddygol Prydain, Byrddau Iechyd, arbenigwyr ar ofal brys a gofal diwedd bywyd, yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Canfyddiadau Allweddol

13. Roedd y pwysau o ran gofal heb ei drefnu yn anodd ei fesur oherwydd diffyg data cadarn ynghylch gweithgareddau allweddol - fel y rhesymau dros dderbyniadau achosion brys a'r amser a gymerodd hynny.

14. Roedd pryder fod gweithlu rheng flaen y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol mewn perygl arbennig o afiechydon trosglwyddadwy yn ystod achosion ymysg y boblogaeth yn gyffredinol, fel y frech goch neu'r ffliw. Roedd y gweithlu hwn hefyd yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r gwaith oherwydd straen. Mae'r absenoldebau wedyn yn achosi pwysau pellach ar adegau prysur ac o bosibl yn cyfrannu ymhellach at absenoldebau staff eraill.

15. Roedd argaeledd gofal sylfaenol yn fater allweddol, gan gynnwys: argaeledd apwyntiadau rhwng 08.00 a 18.30, sy'n ofynnol yn ôl y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol; recriwtio a chadw ymarferwyr cyffredinol; ac, ymdrechion i liniaru'r problemau a achosir gan bobl nad ydynt yn mynychu apwyntiadau.

16. Clywodd y Pwyllgor am ymdrechion i alluogi'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am y gofal iechyd heb ei drefnu y maent ei angen. Roedd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r hawl i gael mynediad at apwyntiadau gofal sylfaenol brys ar yr un diwrnod, cyd-leoli gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau mewn adrannau achosion brys ac annog dewisiadau gwell i gleifion drwy gryfhau'r ymgyrch Dewis Doeth.

17. Gwnaeth y Pwyllgor 19 argymhelliad: Roedd y rhain yn cynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach gyda sefydliadau'r GIG i gynyddu'r cyfraddau imiwneiddio ymhlith y boblogaeth, gan gynnwys cynyddu'n sylweddol ei thargedau ar gyfer brechu staff rheng flaen y GIG rhag y ffliw;
- bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau clir a chyson ar sut y caiff trosglwyddiadau o ambiwlansys eu cofnodi;
- bod byrddau iechyd yn hybu brysbennu dros y ffôn dan arweiniad clinigol mewn practisau meddygon teulu, a bod cleifion yn medru cael cyngor dros y ffôn ynghylch y camau mwyaf priodol i'w cymryd pan ofynnir am apwyntiad brys gyda meddyg teulu;
- bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad manwl o'r gweithlu meddygon teulu presennol ledled Cymru, a bod strategaeth yn cael ei llunio i sicrhau bod y capasiti yn ateb y galw; a

- gwella'r ymgyrch Dewis Doeth, drwy hyrwyddo cyfleoedd eraill ar gyfer cael gofal iechyd, er enghraifft drwy fferyllwyr ac optometryddion cymunedol.

Prif Ganlyniadau

18. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 19 o argymhellion y Pwyllgor, gyda thri o'r rheiny yn rhannol.

19. Roedd Llywodraeth Cymru yn amharod i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor ynghylch targed uwch ar gyfer imiwneiddio staff rheng flaen y GIG yn erbyn y ffliw. Roedd o'r farn na fyddai targed uwch yn debygol o gynyddu niferoedd yn sylweddol, a gallai ddigaloni staff sydd wedi gweithio tuag at y targed presennol mewn blynyddoedd blaenorol. Aeth y Pwyllgor ar drywydd y mater hwn ymhellach mewn gohebiaeth, ac ymgymerodd Llywodraeth Cymru i ystyried y targed ymhellach yn dilyn tymor ffliw 2014-15.

20. Ceisiodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr, a chael cadarnhad y gellid adrodd ar gynnydd yn erbyn nifer o fesurau, ac y gellid rhoi diweddariad pellach ar berfformiad y gwasanaeth iechyd yn ystod tymor y gaeaf 2014-15. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd at y pwnc hwn yn ystod tymor yr haf 2015.

Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon

Cefndir

21. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad "Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon" ym mis Medi 2013. Roedd yr adroddiad yn ystyried a yw dysgwyr, ysgolion ac arian cyhoeddus yn cael eu gwasanaethu'n dda gan drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Cafodd y gwaith ei wneud mewn partneriaeth ag Estyn, a gyhoeddodd hefyd adroddiad ar effaith absenoldeb athrawon yn yr un mis.

22. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi: bod gwariant ar staff cyflenwi yn codi ac nad oedd yn cael ei reoli'n effeithiol bob tro; nad yw trefniadau cyflenwi yn cael eu rheoli yn ddigon da i ddiogelu cynnydd a lles dysgwyr; ac nad yw absenoldeb athrawon yn cael ystyriaeth ddigonol gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol drwy ymdrechion i helpu ysgolion i wella canlyniadau dysgu.

23. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr ym mis Hydref 2013. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar y canlynol:

- sut y gellir lleihau absenoldeb athrawon;
- sut y gellir lleihau effaith absenoldeb ar ddysgwyr; a
- sut y gellir gwneud trefniadau cyflenwi yn fwy cost-ffeithiol a sicrhau diogelwch dysgwyr.

24. Yn ogystal â gwybodaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Estyn, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i drafod canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a barn y Pwyllgor. Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Mai 2014.

Canfyddiadau Allweddol

25. Clywodd y Pwyllgor nad oedd absenoldeb staff yn cael ei fonitro'n effeithiol, ac nad oedd effaith gwersi cyflenwi ar ddysgwyr yn cael ei werthuso fel mater o drefn.

26. Roedd y Pwyllgor yn pryderu a oedd gan lywodraethwyr ysgol ddigon o wybodaeth i fonitro absenoldeb athrawon, ac a oedd yn cael ystyriaeth briodol fel rhan o hyfforddiant penaethiaid.

27. Roedd athrawon yn absennol yn aml o ganlyniad i gymryd rhan mewn mentrau Llywodraeth Cymru, gydag uchelgeisiau tymor hwy posibl ar gyfer gwella canlyniadau dysgwyr yn dod ar draul y gost tymor byr, o ganlyniad i gyflenwi annigonol ar gyfer y gwersi a gollwyd.

28. Roedd potensial mawr i ddatblygu ansawdd athrawon cyflenwi, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion eu cynnwys ar gyrsiau hyfforddiant perthnasol.

29. Gwnaeth y Pwyllgor 14 o argymhellion, gan gynnwys:

- bod data perthnasol a dibynadwy ar absenoldeb athrawon yn cael ei ddal a'i ledaenu i alluogi monitro yn well;
- bod hyfforddiant penaethiaid yn cael ei adolygu i sicrhau mwy o bwyslais ar reoli absenoldeb athrawon;
- bod athrawon cyflenwi yn cael mwy o fynediad at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus a gynigir gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol; a
- bod gwybodaeth bellach am y gost a maint absenoldeb athrawon yn cael ei chasglu gan Lywodraeth Cymru.

Prif Ganlyniadau

30. Cafodd llawer o'r pryderon a drafodwyd gyda Llywodraeth Cymru eu cydnabod yn ystod yr ymchwiliad. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 13 o argymhellion, gyda saith o'r rheiny mewn egwyddor.

31. Gwrthodwyd argymhelliad y Pwyllgor y dylid diwygio'r rheoliadau i sicrhau bod o leiaf un aelod o gorff llywodraethu ysgol yn arwain ar faterion adnoddau dynol. Dadleuodd Llywodraeth Cymru na fyddai diwygio'r rheoliadau yn briodol ar gyfer y diben hwn ac y byddai canllawiau'n cael eu cynhyrchu i ategu goruchwyliaeth cyrff llywodraethu o faterion staffio. Mae'r Pwyllgor wedi cyfnewid gohebiaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, i egluro'r bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn ac i ofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried gwrthod yr argymhelliad.

32. Fel y gofynnwyd yn adroddiad y Pwyllgor, darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ym mis Ionawr 2015 ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r camau sy'n ofynnol mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor.

33. Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad i Athrawon Cyflenwi o fis Rhagfyr 2014, ac fe wnaethom sicrhau ei fod yn gallu defnyddio canfyddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn

Cefndir

34. Fel rhan o'i ffyrdd newydd o weithio, mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i gychwyn ei ymchwiliadau ei hun, yn ogystal â'r rhai sy'n deillio o adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cafodd yr ymchwiliad cyntaf dan arweiniad y Pwyllgor ar y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru, Caerdydd i Ynys Môn, ei gynnal ym mis Ionawr 2014 gan adrodd ym mis Gorffennaf 2014.

35. Mae'r Gwasanaeth Awyr wedi'i sefydlu ers 2007 ac mae awyrennau'n hedfan ddwywaith y dydd yn ystod yr wythnos rhwng Maes Awyr Môn a Maes Awyr Caerdydd. Mae'n cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru drwy'r cymhorthdal Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau roi cefnogaeth i deithiau awyrennau sy'n bwysig ar gyfer datblygiad economaidd, ond nad ydynt yn fasnachol ddichonadwy. Cafodd cost y Rhwymedigaeth ei gapio ar £1.2 miliwn y flwyddyn.

36. I ddechrau, cafodd y gwasanaeth ei weithredu gan Highland Airways rhwng mis Mai 2007 a mis Mawrth 2010, ac wedi hynny cafodd y Gwasanaeth Awyr ei weithredu drwy gontract rhwng Llywodraeth Cymru a dau gwmni arall. Roedd y cwmnïau hyn yn gyd-lofnodwyr ar y contract, gyda Manx2, ac yn ddiweddarach Citywing, yn darparu'r swyddogaethau tocynnau a marchnata, ac FLM Aviation, ac yn ddiweddarach Links Air, yn gweithredu'r teithio. Roedd y trefniant hwn yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2014.

37. Cafodd adroddiad y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2014 ei gyhoeddi'n gynt i alluogi Llywodraeth Cymru i ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor wrth benderfynu ar unrhyw fasnachfaint olynol.

38. Darparodd yr Archwilydd Cyffredinol femorandwm ar weithrediad y Gwasanaeth Awyr, ac fe gymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Martin Evans, arbenigwr diwydiant awyrennau ym Mhrifysgol De Cymru.

39. Canolbwyntiodd ymchwiliad y Pwyllgor ar y canlynol:

- cost, perfformiad (gan gynnwys nifer y teithwyr), a manteision y gwasanaeth;
- caffael a chontractio'r gwasanaeth; a
- dyfodol y gwasanaeth awyr.

Canfyddiadau Allweddol

40. Canfu'r Pwyllgor fod y defnydd o'r gwasanaeth awyr wedi gostwng dros y cyfnod gweithredu, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan weithwyr sector cyhoeddus. Roedd yn ymddangos fod diffyg proffilio cwsmeriaid trylwyr a diffyg marchnata effeithiol o'r gwasanaeth. Nid oedd manteision y Gwasanaeth Awyr wedi cael eu gwerthuso'n ddiweddar, er bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu rhywfaint o ymchwil gan ymgynghorwyr ARUP ar ddyfodol y gwasanaeth awyr.

41. Roedd rhaniad y gwasanaeth rhwng dau weithredydd yn peri cryn bryder, a chlywodd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch a allai cwmnïau ar wahân weithredu fel cyd-lofnodwyr ar Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Mater penodol oedd eglurder ynghylch rhwymedigaethau gweithredwyr. Clywodd y Pwyllgor hefyd bryderon ynghylch cadernid y broses dendro ar gyfer y gwasanaeth awyr yn y gorffennol ac a oedd wedi denu digon o ddiddordeb er mwyn i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i'r trefniant gorau. Roedd gan hyn oblygiadau ar gyfer yr ail-dendro a oedd ar fin digwydd.

42. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth hefyd i sut gellir gweithredu'r gwasanaeth i sicrhau'r gwerth am arian gorau, gan gynnwys maint gorau posibl yr awyren, amllder y gwasanaeth a'r llwybr a ddefnyddir.

43. Gwnaeth y Pwyllgor naw argymhelliad yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ffynhonnell annibynnol i wirio data ar nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Awyr, ac y dylai data ar nifer y teithwyr gael ei gyhoeddi yn rheolaidd yn y dyfodol;
- bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil annibynnol i'r duedd tymor hwy o ran gostyngiad yn nifer y teithwyr;
- bod unrhyw dendr yn y dyfodol yn cynnwys gofyniad penodol am raglen farchnata gan ddarparu'r gwasanaeth;
- bod gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i chyhoeddi ar resymau teithwyr dros deithio, ac i helpu i nodi'r teithiau a ariennir gan drethdalwyr;
- bod cwmpas, methodoleg ac amserlen arolwg ARUP - ac adolygiad llawn o'u hadroddiad yn y pen draw - yn cael eu cyhoeddi; a
- bod unrhyw ymarfer ail-dendro yn ceisio cynyddu nifer y cynigwyr heb gyfaddawdu'r amserlen na'r gwerth am arian.

Prif Ganlyniadau

44. Yn ei ymateb i adroddiad interim y Pwyllgor, derbyniodd Llywodraeth Cymru'r naw argymhelliad, gydag un o'r rheiny mewn egwyddor, sef rhyddhau adroddiad ARUP, a fydd yn cael ei olygu yn ôl yr eithriadau o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

45. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru'r cytundeb newydd o fis Rhagfyr 2014 i Links Air, a fyddai hefyd yn darparu swyddogaethau tocynnau a marchnata.

46. Dychwelodd y Pwyllgor i'r mater hwn ym mis Ionawr 2014, pan gymerodd dystiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar yr ymarfer ail-dendro a sut roedd wedi ystyried y materion a godwyd gan adroddiad y Pwyllgor.

47. Ym mis Ebrill 2014, cafodd y Pwyllgor yr adroddiad ARUP a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn cynhyrchu adroddiad pellach i gloi ei ystyriaeth o'r Gwasanaeth Awyr cyn hir.

Cyflogau Uwch Reolwyr

Cefndir

48. Yr ail ymchwiliad a arweiniodd y Pwyllgor oedd Cyflogau Uwch Reolwyr, ym mis Tachwedd 2013. Nid oedd y Pwyllgor yn ystyried codiadau cyflog unigol o fewn y sector cyhoeddus, ond yn edrych yn gynhwysfawr ar faterion yn ymwneud â gwneud penderfyniadau a thryloywder y swyddi a ariennir gan drethdalwr yng Nghymru. Roedd yn canolbwyntio ar:

- y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer gosod cyflogau - gan gynnwys sut y cyflawnwyd gwerth am arian;
- y dull o gytuno ar godiadau cyflog;
- tryloywder pecynnau cyflog;
- ansawdd a lefel y data cymharol; ac
- a oes angen corff i gadw trosolwg dros gyflogau'r sector cyhoeddus.

49. I gefnogi ei waith, cafodd y Pwyllgor femoranda gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi dadansoddiad o gyflogau uwch reolwyr yng nghyrff y GIG, llywodraeth leol, cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cafodd y memoranda eu croesawu gan dystion, yn ogystal â'r Pwyllgor, am eu bod yn darparu trosolwg cynhwysfawr o drefniadau cyflogau, nad oedd ar gael cyn hynny.

50. Cynhaliodd y Pwyllgor wyth sesiwn dystiolaeth, gan glywed gan dystion yn y sector cyhoeddus yn ogystal â sefydliadau fel yr Hay Group a Chynghrair y Trethdalwyr. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad byr hefyd, ac fe gafodd saith darn o dystiolaeth ysgrifenedig. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Tachwedd 2014.

Canfyddiadau Allweddol

51. Canfu'r Pwyllgor nad oedd dealltwriaeth dda o ran trefniadau cyflogau uwch reolwyr a bod amrywiaeth eang o fewn a rhwng gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys lefelau cyflog, beth yw uwch reolwr, a'r trefniadau ar gyfer gosod cyflogau ac adrodd arnynt.

52. Sylwodd y Pwyllgor ar yr anhawster o ran cael gafael data ar ddata cyflogau uwch reolwyr sy'n glir ac yn galluogi gwneud cymariaethau. Roedd hyn yn atal eu gallu i ddeall yn iawn ac i graffu ar y trefniadau.

53. Yn groes i ddisgwyliadau, nid oedd Llywodraeth Cymru yn cymryd diddordeb arbennig o agos yn nhrefniadau cyflogau'r cyrff sector cyhoeddus y mae'n eu cefnogi. Canfu'r Pwyllgor enghreifftiau lle nad oedd y gofynion tryloywder yng Nghyfarwyddiadau Cyfrifon Llywodraeth Cymru, fel cyhoeddi gwybodaeth cyflogau ar-lein, yn cael eu bodloni.

54. Clywodd y Pwyllgor fod anawsterau wrth ddefnyddio cymariaethau i bennu cyflogau, o ystyried nifer yr amrywiaethau sydd ynghlwm, a bod defnyddio 'meincnodi' cyflogau cyfartalog yn aml yn gwthio cyflogau i fyny.

55. Gwnaeth y Pwyllgor 23 o argymhellion yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- dylai Llywodraeth Cymru lunio a lledaenu diffiniad clir o'r hyn a olygir gan uwch swydd, a hefyd cynhyrchu geirfa i gynorthwyo gyda datgeliadau cyflogau dealladwy;
- dylai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle a gyflwynwyd gan ddiwygio Llywodraeth leol i gynyddu cysondeb ynghylch cyflogau uwch reolwyr;
- dylai Llywodraeth Cymru cyhoeddi canllawiau ar gyfer pwyllgorau taliadau, y defnydd o ymgynghorwyr a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogau; a
- dylai sefydliadau sector cyhoeddus gyhoeddi rhagor o wybodaeth - gan gynnwys nifer y gweithwyr sy'n ennill mwy na £100,000, cyflogau staff â dadansoddiad o'r gwahanol agweddau ar y dyfarniad cyflog a gwybodaeth ddemograffig, a datganiad polisi cyflogau.

Prif Ganlyniadau

56. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 23 argymhelliad y Pwyllgor, gan ymateb yn gadarnhaol i adroddiad y Pwyllgor mewn dadl y Cyfarfod Llawn ar 14 Ionawr 2015. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru, ac ymateb y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, yn nodi bod adroddiad y Pwyllgor yn amserol o ystyried y pwysau ar arian cyhoeddus a'r agenda i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

57. Nododd y Pwyllgor y potensial i'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus, a oedd yn rhan o'r ymgynghori ar adeg yr adroddiad, ystyried argymhellion yr adroddiad. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod potensial, ac fe gyhoeddwyd mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Mawrth 2015 y byddai'r Comisiwn yn cael ei sefydlu ar sail anstatudol yn hydref 2015, ac yn y pen draw ar sail statudol trwy'r Bil Uno a Diwygio Llywodraeth Leol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried manylion pellach y trefniadau ar gyfer y Comisiwn ar ôl i Lywodraeth Cymru eu darparu.

58. Anfonodd y Pwyllgor yr adroddiad hwn at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w ddsbarthu ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru, ac at Cartrefi Cymunedol Cymru i sylw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Craffu ar Gyfrifon 2013-14

Cefndir

59. Er bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn aml yn ystyried agweddau ar berfformiad sefydliad yn y sector cyhoeddus, nid oedd wedi craffu ar eu cyfrifon blynyddol yn flaenorol i gael trosolwg o'u perfformiad. Fel rhan o'i ffyrdd diwygiedig o weithio, craffodd y Pwyllgor ar gyfrifon 2013-14 saith sefydliad a ariennir gan drethdalwyr, gan ystyried eu defnydd o arian cyhoeddus a sut cafodd y gwariant ei oruchwyllo. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ym mis Mawrth 2015 i helpu cyrff cyhoeddus gyda pharatoi eu cyfrifon ar gyfer 2014-15.

60. Y sefydliadau y cafodd eu cyfrifon yn craffu oedd Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y sefydliadau hyn am fod amrywiaeth eang yn lefel eu cyllidebau, ac ystod o drefniadau llywodraethu ar waith.

61. Dyma'r materion penodol a ystyriodd y Pwyllgor:

- sut roeddent yn delio â'r gostyngiad yn lefelau gwariant cyhoeddus er mwyn sicrhau cynnal perfformiad;
- y berthynas rhwng y Comisiynwyr annibynnol a Llywodraeth Cymru, y maent yn ei dwyn i gyfrif ac yn cael eu hariannu ganddi;
- cyfrifoldebau unigolion sy'n gweithredu fel corfforaethau undyn;
- potensial sefydliadau llai i gydweithio a gwneud arbedion gweinyddol;
a
- sut roeddent yn rheoli arian parod, ac arian wrth gefn.

Canfyddiadau Allweddol

62. Yn wahanol i'r cyrff eraill a graffwyd arnynt, roedd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael cynnydd yn ei gyllideb ar gyfer 2013-14. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y cynnydd yn y gyllideb yn fuddsoddiad ar gyfer galluogi arbedion mewn blynyddoedd i ddod.

63. Clywodd y Pwyllgor fod y tri Chomisiynydd annibynnol a'r Ombwdsmon eisoes yn trafod cydweithio posibl o ran eu gwasanaethau cymorth gweinyddol. Mynegwyd rhai amheuon ynghylch maint yr arbedion y gellid eu cynhyrchu, ond roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld unrhyw arbedion yn cael eu gwireddu.

64. Cafwyd dadleuon cryf o blaid y Cynulliad Cenedlaethol yn ariannu'r tri Chomisiynydd yn uniongyrchol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, er mwyn darparu mwy o dryloywder ac annibyniaeth oddi wrth y sefydliad y maent yn dwyn i gyfrif. Wrth i'r Pwyllgor drafod cyfrifon y sefydliadau hyn, roedd adolygiad o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant yn mynd rhagddo, a argymhellodd fod y rôl yn cael ei hariannu'n uniongyrchol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

65. Er bod y cyfrifon yn bodloni'r safonau gofynnol, roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai'r sefydliadau wneud mwy i esbonio'n glir sut mae eu gwariant yn cyfrannu at eu hamcanion. Yn ogystal, bu rhywfaint o drafod y dylai sefydliadau fod yn glir o ran eu polisi ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn, a fyddai'n galluogi craffu priodol ar y polisiau hynny.

66. Gwnaeth y Pwyllgor naw argymhelliad yn ei adroddiad, ac roedd rhai ohonynt yn benodol ar gyfer sefydliadau unigol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dylai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru nodi'n glir yn ei gyfrifon ar gyfer 2014-15 yr arbedion o'r buddsoddiad a wnaed mewn technoleg gwybodaeth a chyfieithu yn 2013-14;
- bod ymdrechion i gyflawni effeithlonrwydd a mwy o gynhyrchiant trwy gydweithredu yn parhau rhwng y Comisiynwyr a'r Ombwdsmon, a bod hyn yn cael ei gyflwyno yn eu hadroddiadau blynyddol a chyfrifon 2014-15;
- dylai'r Comisiynwyr a'r Ombwdsmon nodi'n glir y cyfrifoldebau y maent wedi'u dirprwyo i'w staff; a
- dylai sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus sicrhau bod eu cyfrifon yn hawdd i'w deall ac yn nodi, lle bo'n berthnasol, unrhyw bolisi ar reoli arian parod a defnyddio tanwariant.

Prif Ganlyniadau

67. Cafodd y sefydliadau y cafodd eu cyfrifon eu craffu gopi o adroddiad y Pwyllgor. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r tri argymhelliad a oedd yn berthnasol iddi, gydag un o'r rheiny mewn egwyddor.

68. Soniodd y Pwyllgor am y mater o ariannu'r Comisiynwyr annibynnol mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru, ond nid oedd yn nodi barn ar benderfyniad polisi. Atebodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ceisio sicrhau trefniadau ariannu cyson ar gyfer y Comisiynwyr, ac fe allai nodi trefniadau ar gyfer y dyfodol yn ei ymateb i'r adolygiad o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant.

69. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ailedrych ar ganfyddiadau ei waith craffu yn nhymor yr haf 2015, a bydd yn ystyried effaith ei argymhellion ar y sefydliadau dan sylw, yn ôl eu cyfrifon ar gyfer 2014-15, yn ystod hydref 2015. Rydym hefyd yn bwriadu gwahodd rhagor o sefydliadau i'r Pwyllgor i ehangu ein ffocws a thrafod materion a godwyd gyda'r Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn.

Glastir

Cefndir

70. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar Glastir, cynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru, ym Medi 2014. Ystyriodd a fyddai datblygiad a gweithrediad y cynllun yn hyrwyddo'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y cynllun, ac a gafodd y gwersi a ddysgwyd o Tir Gofal (y cynllun a'i rhagflaenodd) a'r dystiolaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill eu cynnwys. Dyma'r canfyddiadau:

- mae nodau Glastir yn cyd-fynd â pholisïau amgylcheddol allweddol ond, er bod dyluniad y cynllun yn defnyddio'r dysgu o gynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, mae hefyd yn cadw rhai o'r diffygion;
- mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei threfniadau i weinyddu Glastir, ond mae cwrpas o hyd i wella mewn rhai meysydd; ac
- mae cyfranogiad Glastir yn llawer is na thargedau Llywodraeth Cymru, yr oedd rhai ohonynt yn afrealistig, ac nid yw'r mesurau i werthuso llwyddiant y cynllun wedi'u datblygu'n ddigonol eto.

71. Ar ôl ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i Glastir, gan wahodd tystiolaeth gan sefydliadau allweddol sydd â diddordeb yn y cynllun.

72. Canolbwyntiodd trafodaeth y Pwyllgor ar:

- sut y gallai'r cynllun ddangos gwelliant yn ogystal â chynnal arfer da;

- sut y gallai helpu i fynd i'r afael ag arferion gwael - yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd dŵr;
- sut caiff y cynllun ei weinyddu, gan gynnwys gwneud ceisiadau ac arolygu; a
- sut cafodd y cynllun ei gynllunio o ran gosod targedau a gwerthuso.

73. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Lywodraeth Cymru, a cafodd dystiolaeth ysgrifenedig gan Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, a Sefydliad Gwy ac Wysg. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Mawrth 2015.

Canfyddiadau Allweddol

74. Clywodd y Pwyllgor na fyddai'r cynllun, fel y mae wedi'i gynllunio ar hyn o bryd, yn achosi newid mawr mewn arferion amgylcheddol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod cyfleoedd i ddefnyddio'r cynllun i dargedu a mynd i'r afael ag arferion amgylcheddol gwael ac fe ofynnodd i Lywodraeth Cymru ystyried rheoliadau ar y cyd fel dull abwyd a ffon.

75. Am fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno ceisiadau ar-lein yn unig ar gyfer y cynllun yn raddol, roedd y Pwyllgor yn awyddus bod yr heriau bydd ymgeiswyr yn eu hwynebu wrth wneud ceisiadau ar-lein yn cael eu canfod a'u datrys cyn gwneud y cynllun cyfan yn ar-lein yn unig.

76. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru a'r cyrff y mae'n eu noddi wella eu harferion rhannu data a'u trefniadau monitro ac arolygu i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau'r tarfu ar ffermwyr.

77. Gwnaeth y Pwyllgor wyth argymhelliad yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y mae'n nodi arfer gwael ac yn ymdrin â'r arfer hwnnw mewn perthynas ag ansawdd dŵr drwy ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys rheoleiddio a thalu, neu dynnu'n ôl, y cyllid cyhoeddus.
- dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad ffurfiol o brofiadau cwsmeriaid o'r broses o wneud cais ar-lein a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddileu rhwystr neu ddatgymhelliad;
- dylai Llywodraeth Cymru ddadgyfuno costau gweinyddol y cynllun i ganiatáu gwell arfarnu o werth am arian o'r cynllun; a

- dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn hydref 2015 ynghylch y targedau y mae wedi'u pennu ar gyfer cyfranogiad yn y cynllun, y dylai fod yn heriol ond yn realistig.

Prif Ganlyniadau

78. Derbyniodd Llywodraeth Cymru holl argymhellion y Pwyllgor, gyda thri o'r rheiny yn rhannol. Yr argymhellion a dderbyniwyd yn rhannol oedd parhau i gefnogi arferion da a gynhelir drwy Glastir Uwch a'r argymhelliad bod Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Pwyllgor erbyn Mai 2016 ar ei waith monitro a gwerthuso, a fydd yn hytrach ar gael yn hydref 2016.

79. Ysgrifennodd yr RSPB yn llongyfarch y Pwyllgor am ei drafodaethau, gan nodi y byddai argymhellion y Pwyllgor: "if fully implemented, will make a significant contribution towards improving the effectiveness of the scheme in securing greater change in management at participating farms, tackling poor practice and securing better value for money for taxpayers".

Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Adroddiad dilynol

Cefndir

80. Adroddodd y Pwyllgor am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2013 ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG, yn dilyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mehefin 2013. Mae adroddiad y Pwyllgor ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn canolbwyntio ar y Fframwaith Cenedlaethol, sy'n nodi sut y gall unigolion gael gofal corfforol, meddyliol a phersonol parhaus o ganlyniad i angen iechyd sylfaenol. Canfu'r Pwyllgor nad oedd mynediad teg ac amserol i ofal iechyd parhaus ar gael bob amser.

81. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol yn ôl at y mater hwn yn ei adroddiad ym mis Ionawr 2015, a ganfu fod:

- y Fframwaith Cenedlaethol Gofal Iechyd Parhaus yn mynd i'r afael â llawer o'r gwendidau yn y fersiwn blaenorol, a bod arweinyddiaeth a goruchwyliaeth wedi cael eu cryfhau;
- roedd mwy o hawliadau ôl-weithredol nag erioed o'r blaen, ac roedd ymateb rhai o'r byrddau iechyd yn anfoddhaol; a
- roedd y wybodaeth gyhoeddus am Ofal Iechyd Parhaus wedi'i ehangu ond roedd angen iddi fod yn fwy hygyrch; roedd gwendidau yn y cyhoeddusrwydd ynghylch Gorffennaf 2014 fel y dyddiad olaf ar gyfer

rhai hawliadau ôl-weithredol; ac, roedd mynediad at wasanaethau eiriolaeth yn parhau i fod yn bryder i rai byrddau iechyd.

82. Gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i agweddau penodol ar y Fframwaith a chyhoeddi adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Mawrth 2015. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar:

- weithrediad y Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus diwygiedig, yn enwedig y defnydd o'r Offeryn Gwneud Penderfyniadau;
- dull Prosiect Powys o ymdrin â hawliadau ôl-weithredol, a sut cafodd hynny'n ei oruchwylio; ac
- argaeledd ac ansawdd y wybodaeth i gleifion a'u teuluoedd mewn perthynas â gofal iechyd parhaus.

Canfyddiadau Allweddol

83. Er i'r Pwyllgor glywed fod Llywodraeth Cymru yn hyderus na fyddai'r Fframwaith newydd yn creu anfantais i'r unigolion a broseswyd o dan y system flaenorol, roedd gan yr Aelodau bryderon am faint y sampl o achosion a archwiliwyd. Roedd pryder penodol ynghylch achosion yn ymwneud ag unigolion ag anawsterau dysgu.

84. Nodwyd bod y Fframwaith newydd yn mynd ymhellach nag argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad blaenorol y dylai hawliadau ôl-weithredol ar gyfer gofal iechyd parhaus gael sylw o fewn dwy flynedd. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall a oedd Llywodraeth Cymru'n hyderus y gellid cwrdd â therfyn amser o'r fath, o ystyried bod gan rai byrddau iechyd swyddi gwag ac nad oedd yn orfodol i gymryd rhan ym Mhrosiect Powys, a oedd yn delio â hawliadau ôl-weithredol y Byrddau. Yn ogystal, gallai hyn olygu bod hawliadau a gyflwynwyd o dan y Fframwaith newydd yn cael eu trin cyn y rhai sy'n ymwneud â'r Fframwaith blaenorol.

85. Trafododd y Pwyllgor ei bryderon bod cleifion a'u teuluoedd yn aml ddim yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt, a sut y caiff penderfyniadau eu gwneud mewn perthynas â'u hanghenion gofal iechyd parhaus. Roedd pryder arall nad oedd safonau gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu monitro na'u hasesu'n dda.

86. Gwnaeth y Pwyllgor naw argymhelliad yn ei adroddiad, gan gynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r Pwyllgor â chanfyddiadau ei adolygiad o achosion unigolion ag anawsterau dysgu;

- bod Byrddau Iechyd yn cael eu monitro i sicrhau nad yw amseroedd prosesu byrrach yn arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran amseroedd datrys hwy ar gyfer hawliadau hir-sefydlog, heb eu datrys;
- bod Byrddau Iechyd yn cael canllawiau gorfodol ar ddarparu gwybodaeth i unigolion a'u teuluoedd ar ba ofal sydd ar gael a sut caiff ceisiadau eu hasesu, a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch sut y mae'n bwriadu gwella cysondeb, ansawdd ac ymwybyddiaeth am wasanaethau eiriolaeth.

Prif Ganlyniadau

87. Derbyniodd Llywodraeth Cymru holl argymhellion y Pwyllgor. Yn y misoedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am achosion sy'n ymwneud ag unigolion ag anawsterau dysgu, ac ar ei hymdrechion i wella gwasanaethau eiriolaeth.

Edrych i'r dyfodol

88. Yn y flwyddyn sy'n weddill o'r Cynulliad presennol, bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn parhau i ymchwilio i faterion sy'n codi yn astudiaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac yn dal cyrff cyhoeddus i gyfrif am eu defnydd o adnoddau. Bydd y Pwyllgor hefyd yn edrych yn ôl ar ei weithgareddau yn ystod y Cynulliad hwn, yn edrych eto ar bynciau sy'n haeddu ystyriaeth bellach ac yn paratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor a fydd yn ei olynu yn y Cynulliad nesaf.

89. Yn yr wythnosau nesaf, bydd y Pwyllgor yn gorffen ei ystyriaeth o'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol; y trefniadau llywodraethu mewn byrddau iechyd yng Nghymru; a'i ymchwiliad i rwydwaith cefnffyrdd Cymru.

90. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau drwy ymgysylltu ymhellach â Phwyllgorau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill. Ym mis Mehefin, cyfarfu â Phwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban i drafod ei ystyriaeth ddiweddar o sut bydd gweinyddiaeth y cyfrifoldebau cyllidol datganoledig newydd yn cael eu dwyn i gyfrif. Gallai hyn ymwneud yn sylweddol â blaenoriaethau'r Pwyllgor nesaf.